# Cenn@d

TACHWEDD 15 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 142

# Deffrowch! Peidiwch ag anghofio'r Cristnogion sydd wedi eu dal ynghanol gwrthdaro Israel/Gaza

Open Doors

## Gwrandewch. Gweddïwch. Ceisiwch undod.

**'Y teimlad sydd gennym ... yw bod hyd yn oed y byd Cristnogol wedi ein gadael. ... Rydym yn synhwyro nad oes ots am Gristnogion Palesteinaidd.'**
—Y Parch. Jack Sara, llywydd Coleg Beiblaidd Bethlehem, mewn cyfweliad â Reformatorisch Dagblad

**'Cofiwch y carcharorion, fel pe byddech yn y carchar gyda hwy; a'r rhai a gamdrinnir, fel pobl sydd â chyrff gennych eich hunain.'** (Hebreaid 13:3; BCND)



Llun: wefan Open Doors

Wrth i'r rhyfel rhwng Hamas ac Israel barhau i ddinistrio Llain Gaza, mae ein brodyr a'n chwiorydd Palesteinaidd ac Israelaidd yn gweiddi ar i'r byd roi sylw i'r sefyllfa hynod gythryblus hon. Yn benodol, mae'r aelodau Palesteinaidd o Gorff Crist yn erfyn ar y byd i'w cofio – gan gynnwys yr Eglwys fyd-eang. Mae Gair Duw yn dweud wrthym ein bod wedi ein huno â phobl Dduw yn y Lan Orllewinol a Gaza yn yr 'Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad' (Effesiaid 4:4).

Mae partneriaid y mudiad Open Doors yn y rhanbarth yn dweud bod Cristnogion Palesteinaidd yn teimlo'u bod wedi eu dal rhwng eu hunaniaeth fel Arabiaid a'u ffydd fel Cristnogion. Yn yr un modd, maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag amheuaeth gan y Gorllewin oherwydd eu bod yn Balestiniaid; ac mae rhai Palestiniaid yn wyliadwrus o'r credinwyr oherwydd eu bod yn dilyn Iesu. Mae Iddewon Meseianaidd yn teimlo'r un fath; dywedant eu bod yn cael eu hystyried yn fradwyr i Iddewiaeth a'u drwgdybio gan eu cymdogion am eu bod yn Israeliaid.

Nid yw Open Doors yn erbyn unrhyw genedl, llywodraeth na chrefydd. Rydyn ni o blaid Iesu Grist, sy'n golygu ein bod ni'n ceisio gweithredu mewn gostyngeiddrwydd aberthol tuag at y nod o gymod – gan gofio ein galwad i 'gryfhau'r hyn sy'n weddill ac sydd ar fin marw' (Datguddiad 3:2). Dyna pam mae Open Doors wedi gweithio yn y Wlad Sanctaidd ers degawdau, gan helpu ein partneriaid ac eglwysi lleol i ddal ati dan bwysau ac erledigaeth. Fel Cristnogion eraill o gwmpas y byd, rydyn ni wedi ein brawychu'n enbyd gan yr ymosodiadau creulon ar Israel gan Hamas. Condemniwn y fath weithredu treisgar yn y modd mwyaf grymus.

Rydym yn pryderu am y rhyfel a'i effaith ar y bobl yn gyffredinol. Mae'n amlwg iawn bod sifiliaid yn cael eu hanafu a'u lladd gan ymgyrch barhaus Israel i fomio a saethu taflegrau. Rydym yn arbennig o bryderus am y 1,070 o Gristnogion yn Gaza a thros 45,000 o gredinwyr ar y Lan Orllewinol, Cristnogion Arabaidd a chredinwyr Meseianaidd yn Israel.

Nid oedd ein sylfaenydd, y Brawd Andrew – sy'n adnabyddus ledled y byd fel 'Smyglwr Duw' – yn credu'n unig yn yr angen i sefyll gyda Christnogion Israel a Phalestina. Fe *ddangosodd* hynny drwy deithio sawl gwaith i'r rhanbarth, a ffurfio perthynas ddofn â Christnogion Palesteinaidd yn Gaza a'r Lan Orllewinol, credinwyr Meseianaidd a Christnogion Arabaidd yn Israel.

Fe syfrdanodd y byd hefyd drwy gyfarfod ag arweinwyr Hamas a Jihad Islamaidd! Ni cheisiodd gyfarfod i gyfreithloni'r grwpiau hyn – ond oherwydd ei fod yn credu bod angen iddynt adnabod Iesu uwchlaw pob dim arall. Pryd bynnag y gallai, manteisiodd y Brawd Andrew ar y cyfle i siarad â nhw am bŵer yr efengyl i newid eu bywydau.

Yn ei lyfr, *Light Force* (a ysgrifennwyd gydag Al Janssen), mae geiriau'r Brawd Andrew yn ymddangos yn broffwydol ar hyn o bryd: '**Roedd y gwrthdaro di-ben-draw yn peri imi alaru, ond yr hyn oedd yn brifo hyd yn oed yn fwy oedd gwybod bod fy mrodyr a'm chwiorydd wedi eu dal yng nghanol yr ymladd.** Roedd yna bobl yn credu yn Iesu Grist yn byw yn Israel, y Lan Orllewinol a Gaza ... roeddwn i'n argyhoeddedig bod yna gyfraniad y gallai'r gymuned Gristnogol ei wneud. Efallai i fod yn ddim ond goleuni.'

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Lansio 100.Cymru mewn noson o weddi
**Tudalen 4**

Oedfa Flynyddol Adran Genhadol y Chwiorydd (Senana) Cymanfa Penfro
**Tudalen 5**

O Gefn Gwlad
I ble'r aeth y goleuni?
**Tudalen 7**

*Deffrowch! Peidiwch ag anghofio'r Cristnogion sydd wedi eu dal ynghanol gwrthdaro Israel/Gaza*
*(parhad o dudalen 1)*

**Mae Open Doors yn argyhoeddedig ei bod hi'n bryd unwaith eto i'r Eglwys fyd-eang ateb galwad Duw a bod yn oleuni yn nhywyllwch y gwrthdaro presennol.** Ac rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan.

**Yn gyntaf, i wrando ar leisiau ein brodyr a'n chwiorydd yn y rhanbarth.**

**Yn ail, gweddïo gyda nhw a throstyn nhw.**

**Ac yn drydydd, i geisio undod yn yr Eglwys.**

**1. Gwrando**

Mae Drysau Agored yn galw ar yr Eglwys ledled y byd i wrando ar leisiau a thystiolaeth cymunedau Cristnogol Israel a Phalestina. Rydym yn cael ein cythryblu'n arbennig gan eu cyflwr bregus oherwydd eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion, megis, oherwydd eu ffydd – gyda'r argyfwng hwn yn gwneud eu sefyllfa waeth. Wrth i'r byd gymryd ochr yn y gwrthdaro, gall fod yn anodd clywed lleisiau'r credinwyr yn y rhanbarth—ond mae ein ffydd yn dweud wrthym fod yn rhaid inni wrando oherwydd y gorchymyn inni garu ein chwiorydd a'n brodyr (1 Ioan 4:21).

Rydym yn poeni y bydd y pwysau parhaus ar bobl Palestina yn bygwth y dystiolaeth Gristnogol yn y Wlad Sanctaidd. 'Dw i'n meddwl ein bod ni i gyd mewn sioc ar ôl gweld popeth sydd yna ar y teledu a'r cyfryngau cymdeithasol,' meddai un crediniwr Palesteinaidd sy'n byw yn y Lan Orllewinol wrth Open Doors. 'Rydw i mewn cyswllt dyddiol a chyson gyda'n brodyr a chwiorydd sydd wedi cael lloches yn y ddwy eglwys [yn Ninas Gaza]. Maen nhw wedi dychryn yn arw, a dywedodd un ohonyn nhw wrthyf neithiwr, "Fe allwn ni arogli marwolaeth" . ''Mae pawb yn Israel yn adnabod rhywun sy'n adnabod rhywun neu aelodau o'r teulu sydd wedi cael eu llofruddio, eu hanafu'n ddrwg neu eu cymryd yn wystl,' meddai'r Parch. Evan Thomas, crediniwr Meseianaidd sy'n gweinidogaethu yng nghanolbarth Israel. 'Rydym yn genedl mewn sioc a galar ac yn bryderus iawn bod ein llywodraeth a'n lluoedd arfog wedi methu atal hyn rhag digwydd.'



Llun: wefan Open Doors

Ychwanega: 'Rydym mewn cysylltiad agos â'n cymunedau Cristnogol Arabaidd ac yn gweddïo gyda'n gilydd yn gyson gan annog ein gilydd yn y galar a rannwn.'

'Y teimlad rydyn ni'n ei gael yma yw fod hyd yn oed y byd Cristnogol wedi ein gadael ni. Ychydig iawn sydd yn gweddïo mewn ffordd gyfartal dros y Palestiniaid a'r Israeliaid,' meddai'r Parch. Jack Sara, llywydd Coleg Beiblaidd Bethlehem, mewn [cyfweliad gyda Reformatorisch Dagblad]. 'Rydym yn synhwyro nad oes ots am Gristnogion Palestina. Rydym yn teimlo [ein bod yn cael ein gweld] yn niwsans. … Yma, meddyliwn am un Eglwys; nid ydym yn meddwl am ddau bobl Dduw. Ond mae hynny'n cael ei ddal yn ein herbyn, fel petaem ni yn erbyn Israel neu hyd yn oed yn wrthsemitaidd. Yr hyn sydd ei angen arnom gan Gristnogion ledled y byd yw neges o anogaeth. Rydym wedi ein digalonni cymaint gan y sefyllfa. Rydyn ni yma beth bynnag; byddwn ni'n para yma oherwydd ein bod ni'n credu bod Duw yn ein galw ni er mwyn ein pobl, y Palestiniaid. Dw i'n dweud: carwch Israel a'i chymdogion, gan gynnwys y Palestiniaid.'

Y syniad yma o undod sy'n gyrru ein gweithredoedd. A rhaid iddo ein gyrru yn gyntaf i fod ar ein gliniau mewn gweddi.

**2. Gweddïo**

Un o werthoedd craidd Open Doors yw ein bod ni'n 'bobl gweddi'. Ac felly, safwn gyda chredinwyr yn y Dwyrain Canol gan alw ar Gristnogion ledled y byd i weddïo am heddwch yn y rhanbarth. Mae un Cristion (enw wedi'i ddal yn ôl am resymau diogelwch), sy'n rhan o fudiad o gredinwyr yn y rhanbarth a drodd oddi wrth Islam, yn rhannu:

> Gwelwn fod ein hardal yn llosgi i'r llawr [ac wedi bod] yn berwi ers blynyddoedd lawer. Mewn cyfnod o ryfel, ni fydd neb yn ennill. Bydd pob plaid yn colli. Dyma a ddywedodd Iesu Grist wrthym: i weddïo am heddwch a shalom Jerwsalem. Nid absenoldeb rhyfel ac absenoldeb problemau ydi ystyr shalom, yn ôl y Beibl, ond mae'n golygu'r diogelwch y bydd Duw yn ei roi i'n bywydau.
>
> Ein gweddi yw y bydd Duw yn dod â'i heddwch ei hun i'r rhanbarth. Mae ein calonnau'n gwaedu dros y llu o deuluoedd Iddewig a gollodd anwyliaid, neu sy'n galaru am eu plant, eu gwragedd a'u gwŷr [a gymerwyd yn wystl], a'r rhai sy'n dioddef trawma oherwydd yr ymosodiad ofnadwy hwn. Ond [mae ein calonnau hefyd gyda] y bobl ddiniwed sy'n byw yn Gaza, yn ddynion a merched, plant nad ydynt yn rhan o'r frwydr hon. Ein gweddïau yw y bydd yr Arglwydd yn trugarhau wrthynt.
>
> Felly gadewch inni ymuno â'n gilydd i weddïo am heddwch i Jerwsalem, heddwch i Israel, heddwch i'r bobl yn y Lan Orllewinol, heddwch i'r bobl yn Gaza, heddwch i'n pobl yn Libanus, Syria ac Irac, yn enw Iesu.

Mae Open Doors yn adleisio galwad y crediniwr hwn ac yn gweddïo yn erbyn cynlluniau Satan sy'n ceisio rhannu a meithrin trais yn y gwrthdaro hwn. Gweddïwn yn erbyn unrhyw ideoleg sy'n cyllwynio i ddinistrio bywydau, cymunedau o sifiliaid, cenhedloedd neu'r rhai sydd yn erbyn ceisio ffyrdd heddychlon o fyw gyda'i gilydd.

Ymunwch â ni a chredinwyr yn y Wlad Sanctaidd wrth i ni weddïo y bydd i ffordd Iesu gael ei sylweddoli fel yr ateb i'r gwrthdaro hwn. 'Ar y groes yr enillodd Iesu: nid ag arfau, nid â grym gwleidyddol, nid trwy ddulliau mawredog, na thrwy orfodi ei Hun,' ysgrifennodd Cardinal

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Deffrowch! Peidiwch ag anghofio'r Cristnogion sydd wedi eu dal ynghanol gwrthdaro Israel/Gaza*
*(parhad o dudalen 2)*

Pizzaballa, Patriarch Lladin Jerwsalem, mewn llythyr diweddar. 'Nid oes gan yr heddwch y mae ef yn sôn amdano ddim i'w wneud â buddugoliaeth dros eraill. Enillodd y byd trwy ei garu. Mae'n wir bod realiti newydd a goruchwyliaeth newydd wedi dechrau ar y groes. Goruchwyliaeth a realiti'r un sy'n rhoi ei fywyd oherwydd ei gariad. Gyda'r Atgyfodiad a rhodd yr Ysbryd, mae'r realiti a'r oruchwyliaeth honno yn eiddo i'w ddisgyblion. I ni. Nid cynnig esboniad yw ateb Duw i'r cwestiwn pam mae'r cyfiawn yn dioddef, ond yn hytrach cynnig ei bresenoldeb. Crist ar y groes ydyw. Ar hyn yr ydym yn seilio ein ffydd heddiw."

Ymunwch â ni wrth inni weddïo am ddoethineb i arweinwyr rhyngwladol – gan gynnwys rhai Israel, Gaza a'r Lan Orllewinol. Gofynnwch i Dduw feddalu calonnau caled, gan ddod â'r heddwch y gall ef yn unig ei gynnig. Yn olaf, gweddïwch am gadoediad ac y bydd y rhai a fyddai'n ceisio dinistrio yn cael eu rhwystro ac yn profi newid yn eu calonnau.

Pan weddïwn y gweddïau beiddgar hyn, rydyn ni'n gwneud rhywbeth mwy na gweithredu gwleidyddol neu brotest. Rydyn ni'n dechrau gweld ein bod ni, yn Iesu, yn unedig â'n chwiorydd a'n brodyr – ein bod ni i gyd yn aelodau o un Corff Crist.

**3. Ceisiwch undod yr Eglwys**

Mae Open Doors yn adleisio'r galwadau am undod gan Gristnogion yn y Dwyrain Canol—y byddem yn gweld un Eglwys yn hytrach na Chorff wedi'i dorri. Mewn pregeth ddiweddar, gwnaeth gweinidog efengylaidd yn yr Aifft (sy'n ffinio â Gaza) alwad angerddol am undod: 'Mae ein gwledydd cyfagos mewn argyfwng difrifol. Yn y Testament Newydd, cawn fod Duw yn caru yr holl genhedloedd yn gyfartal, Iddewon a Chenhedloedd, caethion a meistri, tlawd a chyfoethog; yng Nghrist, nid oes gŵr a gwraig, Iddew a Groegwr, mae'n caru pawb yn gyfartal. Mae'n caru'r rhai sy'n credu ynddo, ei blant, cymaint â'r rhai nad ydyn nhw'n credu ynddo. Mae'n eu caru, a bu farw drostynt.

'Ac ar ein ffiniau, mae rhyfel rhwng dwy genedl, rhwng dwy grefydd wahanol, yn brwydro â'i gilydd. Mae gan un ohonyn nhw gefnogaeth aruthrol, ac mae'r llall yn wan; yr iaith a ddefnyddir yw iaith gwaed, bwledi, bomiau a dinistr. Ac mae gwaed yn llifo yn y tiroedd, a Duw yn gwylio mewn tristwch mawr. Am bob bywyd sy'n cael ei gymryd o'r naill ochr a'r llall, mae'n torri calon y Tad, oherwydd mae'n caru'r ddwy ochr yn gyfartal.' Cred Open Doors fod yr Eglwys yn un Corff (Rhufeiniaid 12:5). Pan fydd un rhan yn dioddef, rydyn ni i gyd yn dioddef (1 Corinthiaid 12:26). Felly, pan fo staff partneriaid lleol Open Doors yn ymdrechu i wasanaethu credinwyr ar draws y rhanbarth, cawn ein annog a'n gorfodi i sefyll gyda nhw mewn gweddi, gan wybod y bydd ein gweddïau yn eu cryfhau a'u hannog.

Wnaeth y Brawd Andrew, sefydlydd y mudiad, erioed osgoi siarad yn erbyn anghyfiawnder, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cymhleth. Yn ei lyfr *Light Force*, mae'n ysgrifennu am ei ymateb i weld ymosodiadau gan fomwyr sy'n cyflawni hunanladdiad yn y Dwyrain Canol: 'Pwy oedd yn mynd at y terfysgwyr? A oedd unrhyw un yn barod i'w hwynebu a rhoi rheswm iddyn nhw i fyw a oedd yn fwy na'u cymhelliad i farw? Sut gallan nhw wybod am Dywysog Tangnefedd os nad oes neb yn mynd i ddweud wrthyn nhw?' Mae'r math hwn o ffydd radical yn un y ceisiwn ei hefelychu.

Fel mudiad, rydyn ni'n caru dilynwyr Iesu ar bob ochr, ac rydym yn caru pobl fel y maent wedi'u gwneud ar ddelw Duw, waeth beth fo'u hunaniaeth genedlaethol, grefyddol neu ethnig. Bu farw Iesu dros ei briodferch, sydd yn un Eglwys, un Corff. Cefnogwn a gweddïwn dros ddilynwyr Crist a chyda nhw – Cristnogion Arabaidd a Phalesteinaidd, ac Iddewon Meseianaidd – am ein bod yn credu'n gryf fod Duw wedi gosod ei Eglwys yno i hyrwyddo'r efengyl drwy ei bobl, i ddangos gobaith a chariad Iesu i Fwslimiaid ac Iddewon, ac i gynnig ei faddeuant a'i gariad Ef, ei gymod a'i gyfiawnder. Galwn ar frys ar yr Eglwys o amgylch y byd i ddeffro ac ymuno â ni wrth i ni wrando, gweddïo a cheisio undod.

Erthygl a ryddhawyd gan y mudiad Open Doors, sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn cynorthwyo Cristnogion sydd dan erledigaeth. Clywyd yr un lleisiau a'r un negeseuon hefyd wrth i Fforwm Ffydd y Senedd yng Nghymru wahodd Cristnogion Palesteinaidd i rannu eu sefyllfa a'u pryderon mewn cyfarfod dros Zoom ddiwedd Hydref. (Gol.)

# Sul arbennig yn Ebeneser Unedig, Rhuddlan

Roedd Sul, 8 Hydref, yn Sul arbennig yn Ebeneser Unedig, pan gafwyd cyfle i ddathlu diolchgarwch yr eglwys dan ofal ein Bugail, y Parchedig Brian Huw Jones, ar y thema 'Diolch'.

Yn ystod yr oedfa gwahoddwyd Mrs Brenda Roberts ymlaen ynghyd â'n hysgrifennydd, Mr Noel Jones, i wneud cyflwyniad arbennig i Brenda. Dywedodd Noel ein bod yn awyddus i gydnabod ei chyfraniad gwerthfawr ar yr organ yn Rhuddlan a chyn hynny yn Ninbych am dros 75 mlynedd.

Cyflwynwyd cerdyn o ddiolch i Brenda, yn cynnwys lluniau organ Pendref, Dinbych, ac Ebeneser Unedig, Rhuddlan, fframiau lluniau a blodau hardd fel gwerthfawrogiad o'o gwaith ar yr organ.

Derbyniodd Brenda'r rhoddion a dywedodd air am ei phrofiad.

Diolch, Brenda, am eich cyfraniad hir a gwerthfawr.

*Caerwyn Davies*



Yn y llun: Maldwyn Roberts, Brenda Roberts, Brian Huw Jones a Noel Jones

# Lansio 100.Cymru mewn noson o weddi

Nos Sadwrn, 21 Hydref, fe wnaeth dros 200 ohonom ymgynnull yn ddisgwylgar yn eglwys Hope Church Merthyr i weld beth oedd y fenter newydd hon oedd wedi bod yn ymddangos ar ein cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau diwethaf.

Roedd elfen o gyffro wrth i bobl lifo drwy'r drysau, croeso cynnes, a phwyslais cryf fod hon am fod yn noson lle byddai siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn gallu cymryd rhan yn iaith eu calon, wrth i'r setiau cyfieithu gael eu rhannu. Noson weddi oedd wedi ei hysbysebu, ac roedd gen i ddiddordeb mewn gweld sut fyddai hyn yn gweithio, yn eiddgar i weddïo a hefyd i glywed am y cynllun newydd yma.

Ben Franks, un o'r tîm arwain, ddechreuodd drwy rannu ychydig am y weledigaeth a blannwyd yn ei galon gan Dduw, yn canoli ar y cwestiwn: 'Beth sydd angen ei wneud i blannu 100 eglwys iach dros y 10 mlynedd nesaf?' Geiriau Salm 44 oedd yn pwyso arno, 'Dyn ni wedi clywed, O Dduw, ac mae'n hynafiaid wedi dweud wrthon ni beth wnes ti yn eu dyddiau nhw, ers talwm' (Salm 44:1). Dyna ein profiad ni fel Cymry – clywed am symudiad nerthol Ysbryd Duw yn y gorffennol. Dyheu am dywalltiad arall o'i Ysbryd.

Yn dilyn, crëwyd gofod i fyfyrio, i edifarhau, i ddod gerbron Duw a gofyn iddo ein harchwilio. Dyma nodweddai'r noson



Ben Franks yn cyflwyno'r noson



Gwilym ac Alice Jeffs yn rhannu am Angor Grangetown

i mi: ymagwedd o alw ar Dduw i gamu i mewn, i arwain, i bryfocio, i ddangos i ni ble sydd angen edifarhau a ble mae angen symud ymlaen. Wrth symud yn ein blaenau drwy'r salm, cefais yr argraff fod ymagwedd o ostyngeiddrwydd gan y tîm. Pwysleisiwyd ar i ni gofio mai Duw, nid Cant i Gymru, fydd yn peri i'r gwaith lwyddo: 'dy nerth di, dy allu di, dy ffafr di wnaeth y cwbl' (Salm 44:3), a'r cynnig agored y gallai Cant i Gymru fod yn fodd o gefnogi'r rhai oedd yn teimlo Duw yn galw ar iddyn nhw gyflwyno'u bywydau mewn gwasanaeth iddo.

Yn yr ysbryd hwnnw, clywsom gan unigolion a theuluoedd o amryw o ardaloedd ar draws Cymru, yn rhannu am y ffordd yr oedd Duw yn symud yno. Cawsom ein calonogi yn fawr gan hanesion am waith newydd yn cael ei blannu, a bywydau'n cael eu trawsnewid wrth i Dduw fod ar waith mewn cymunedau amrywiol. Roedd yn fendigedig cael gweddïo mewn grwpiau a chlywed rhai oedd yn ddieithr i mi cyn y noson honno'n agor eu calonnau'n gweddïo a deisyfu ar Dduw dros gymunedau'r wlad hon.

Rwyf wedi fy annog a'm hysbrydoli wrth gael fy atgoffa fod Duw ar waith yng Nghymru heddiw. Mae egni a chyffro tîm Cant i Gymru wedi fy nghalonogi wrth fynd i mewn i dymor yr Adfent, ein bod yn aros yn y Duw sydd yn symud heddiw ac wedi camu mewn i'r byd ym mherson Iesu, gobaith i'n gwlad ni ac i'r cenhedloedd i gyd.

Digwyddiadau nesaf: Diwrnod i arweinwyr ar faes y Sioe, Llanfair-ym-Muallt rhwng 10 a 2 ar 1 Rhagfyr. Yna, diwrnod o weddi gyda noson o fawl a gweddi i ddilyn ym Mlaenau Ffestiniog ar 2 Chwefror 2024. Ewch draw i www.100.cymru i gael mwy o wybodaeth ac i gefnogi.

*Catrin Hampton*
*Yr Wyddgrug*



# Oedfa Flynyddol Adran Genhadol y Chwiorydd (Senana) Cymanfa Penfro



Llinos Penfold, cyn-Lywydd; Ffion Rodgers, unawdydd; Menna James, Llywydd

Daeth yn arferiad ers sawl blwyddyn bellach i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Senana yn ystod cyfarfodydd hanner blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Penfro ac eleni, ar 11 Hydref, roedd yn ddiwrnod digon gwlyb a garw. Nid felly oedd hi, fodd bynnag, y tu mewn i furiau Horeb, Maenclochog, gan i Lywydd y Gymanfa, Mr Cerwyn Davies, estyn croeso twymgalon i bawb cyn trosglwyddo'r awenau i Mrs Llinos Penfold, Bethel, Mynachlog-ddu, llywydd y Senana.

Offrymwyd y weddi agoriadol gan y llywydd a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan ddwy chwaer o Gaersalem, Glenys Williams yn darllen ac Yvonne Williams yn gweddïo. Eraill o Gaersalem, sef Marian Rogers, Joyce Evans, Sandra Llewellyn a Lon Davies, fu'n gyfrifol am gyflwyno'r emynau, gyda Margaret Rhys, eglwys Tabor, wrth yr organ. Yn dilyn y rhannau arweiniol, darllenwyd y cofnodion a galwyd enwau'r eglwysi gan ysgrifennydd y Senana, Sandra Llewellyn. Aeth casgliad yr oedfa, yn ôl yr arfer, tuag at waith y BMS.

Gyda dwy flynedd Llinos fel llywydd yn dod i ben, ei gorchwyl olaf oedd cyflwyno i'r gynulleidfa lywydd newydd Senana Cymanfa Penfro am y ddwy flynedd nesaf, Mrs Menna James, o eglwys Caersalem, Cylch Carn Ingli. Yn ei chyflwyniad, nododd Llinos i Menna gael ei hethol oherwydd ei hymroddiad i waith yr eglwys yng Nghaersalem a'r rôl allweddol oedd ganddi yn y fan honno o fod wedi chwarae'r organ am dros 60 mlynedd. Aeth ymlaen i ddweud, 'Mae hyn yn gofyn am ffyddlondeb i'r achos ac mae Menna yn un o'r rhai hynny y gallwch chi ddibynnu arnynt.'

Croesawyd Menna felly'n gynnes i gadair Llywydd y Senana am y ddwy flynedd nesaf, a gyda'r gynulleidfa ar ei thraed, canwyd 'Dyma Feibl Annwyl Iesu' wrth i Menna arwyddo Beibl y Senana. Diolchodd Menna am y fraint a'r anrhydedd. Yn ei hanerchiad ar y thema 'Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd', atgoffodd Menna'r gynulleidfa fod Duw gyda ni ar y ffordd trwy daith bywyd a'i fod Ef yn llond pob lle ac yn bresennol ym mhob man. A ninnau'n ddigon ffodus i fyw mewn gwlad hyfryd a heddychlon cyflwynodd enghreifftiau o brosiectau yn Nepal, Mozambique ac Uganda, lleoedd sydd mor wahanol i'n gwlad ni, a lleoedd lle fyddai cenhadon o'r BMS yn gweithio'n galed i ddod â gobaith o fywyd gwell i'r trigolion.

I gloi'r prynhawn mewn ysbryd brawdgarwch, gwrandawyd ar lais swynol Ffion Rogers, sef merch Menna, yn canu'r emyn addas 'Gwna fi'n offeryn dy hedd'. Yn dilyn cydganu'r emyn olaf, a chyn offrymu'r fendith, diolchodd Menna i aelodau Caersalem am fod mor barod i'w chynorthwyo yn y gwasanaeth.

*Sandra Llewellyn*




Y rhai a gymerodd ran yn Oedfa'r Senana, o'r chwith i'r dde: Llinos Penfold, cyn-Lywydd y Senana; Cerwyn Davies, Llywydd y Gymanfa; Glenys Williams; Joyce Evans; Ffion Rodgers, unawdydd; Menna James, Llywydd y Senana; Lon Davies; Margaret Rhys, cyfeilydd; Yvonne Williams; Ann Davies (cyfeilydd); Marion Rogers; Sandra Llewellyn

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 8**
**'Y Gair ar waith' – Yr economi**
**Mathew 20: 1–16 | 19 Tachwedd**

### Gweddi

Dduw pob trugaredd, gofynnwn am dy fendith heddiw wrth i ni ystyried ein hamgylchiadau byw yng nghyd-destun yr economi a chyflogaeth fyd-eang. Maddau i ni ein plwyfoldeb cyfyng heb feddwl am ganlyniad ein deisyfiadau hunanol. Amen.

### Darlleniad: Mathew 20:1–16

### Cyflwyniad

Prin yw'r cyfeiriadau Beiblaidd at fasnach a diwydiant, a pha ryfedd? Mae'r cyfnod hanesyddol yn y Beibl yn ymestyn dros bymtheng mil o flynyddoedd rhwng Moses a diwedd y ganrif gyntaf. Maent hefyd yn gyfyngedig i fyd a bywyd mewn gwledydd penodol yn y Dwyrain Canol lle roedd y prif ddiwydiant yn ddibynnol ar amaeth a physgota. Eto, ceir ambell gyfeiriad at fân ddiwydiannau yn rhai o drefi Asia Leiaf lle roedd trin metelau'n digwydd ac roedd Joseff yn saer coed, onid oedd. Cyfeiriodd Jeremeia at dŷ'r crochenydd ac roedd yr Eifftwyr wedi datblygu'r modd i wneud blociau adeiladu allan o glai a gwellt. Bydd haneswyr yn medru olrhain datblygiad dawn y crefftwyr ar hyd y canrifoedd, a bydd adeiladu'r pyramidiau yn yr Aifft yn rhoi cefndir dramatig i greadigrwydd dyn.

Erbyn heddiw, yn ein hoes dechnolegol ddigidol ni, mae'n amhosibl meddwl am fywyd heb yr adnoddau sydd o'n cwmpas. Defnyddir olew i greu ystod eang o adnoddau, ac mae trydan ar gael ar gyffyrddiad botwm. Bydd addysg a gofal meddygol yn adnoddau hawdd cael mynediad atynt mewn gwledydd cyfoethog, ond beth am ystyried cymdogaethau lle mae tlodi neu ddiffyg hawliau dynol yn amlwg. Eto, mewn nifer o wledydd, mae'r darluniau a ddaw atom yn amhosibl i'w deall na'u derbyn. Mae'r darlun byd-eang yn ormod o gynfas i lawer ei ddychmygu, a hynny'n sicr yng nghyd-destun masnach a thlodi. Bydd trigolion Cymru a gweddill Ewrop yn gweld bod cwmnïau wedi cau ac wedi ailosod eu ffatrïoedd yn y Dwyrain Pell. Hawdd deall pam mae'r cwmnïau hyn yn symud i ardaloedd lle gellir cyflogi gweithwyr am chwarter y gost. Bydd diweithdra yn dilyn, ac mae rhai ardaloedd o Brydain yn gorfod ymdopi â chynnydd yn nifer y rhai sydd heb waith.

Sut gall y mwyafrif ohonom ddeall goblygiadau'r economi fyd-eang a'r polisïau gwleidyddol sy'n cael eu hyrwyddo gan yr asgell dde wleidyddol, fel y gwelwyd mewn sawl gwlad ers 2021, yn ceisio amddiffyn eu cyflogaeth a'u diwydiannau eu hunain heb boeni am y darlun lletach?

### Myfyrdod

Ar un wedd, mae Ghana yn wlad a fu'n gymharol gyfoethog yng nghyd-destun economïau gwledydd eraill ar gyfandir yr Affrig. Yno, roedd ffermwr tomatos o'r enw Kofi Eliasa yn gwneud bywoliaeth deg. Ond erbyn dechrau'r degawd hwn, prin roedd yn crafu incwm drwy dorri cerrig mewn chwarel. Mae'n ennill llai na doler y dydd. Gorlifwyd ei wlad gan gynnyrch rhad o Ewrop fel nad oedd yn medru gwerthu ei domatos. Roedd yn rhaid i Ghana dderbyn bod cynnyrch rhad yn dod i mewn i'r wlad fel rhan o'r fargen am fenthyciadau o'r IMF a Banc y Byd. Byddai Kofi Eliasa yn cydymdeimlo â'r asgell dde wleidyddol sydd am amddiffyn polisïau economaidd y gwledydd sy'n gogwyddo tuag at bolisïau hunan-les, heb weld y darlun byd-eang.

Byddwn yn deall ac yn gwerthfawrogi fel y bydd Cymorth Cristnogol ar flaen y gad yn wyneb trychinebau neu argyfyngau megis rhyfel a chorwyntoedd. Gwaith anoddach a llai amlwg yw lobïo llywodraethau sy'n hyrwyddo polisïau gwleidyddol a fydd yn achosi corwyntoedd economaidd ar draws y byd. Amcan polisïau economaidd yw creu'r amgylchiadau i wella incwm lleol a chreu cyfoeth. Rhan o ethos Cymorth Cristnogol yw dangos bod cynyddu cyfoeth rhai yn achosi tlodi enbyd i eraill. Mae masnach fyd-eang yn werth $10 miliwn y funud, ond dim ond 0.4% o hyn y mae gwledydd tlawd yn ei gael, sy'n ganran lai na hanner beth roeddent yn ei dderbyn yn 1980. Dywedir bod pob buwch yn Ewrop yn cael nawdd o $800 y flwyddyn tra mae cyfartaledd cyflog yn Ethiopia yn $100 y flwyddyn. Faint o economegwyr gwledydd yr G20 fydd yn poeni am Kofi Eliasa yn torri cerrig a mudiad eithafol gwleidyddol /grefyddol yn galw arno ef a'i debyg i godi arfau? Pa ryfedd fod y tlodion mewn gwledydd tlawd, fel Palestiniaid Gaza, yn barod i ddilyn terfysgwyr fel Hamas?

### Gweddi

Trugarha wrthym, Arglwydd, yn ein musgrellni ysbrydol. Weithiau, byddwn yn cuddio mewn crefydd gyfforddus heb weld y darlun llawnach o gysylltu ein cyfoeth ni â chyd-destun tlodi eraill. Gwyddom dy fod yn ymwybodol o ing y cymunedau tlawd yn Ghana a mannau eraill ac yn estyn cymorth i Kofi Eliasa a'i debyg. Boed i wleidyddion byd weld y darlun lletach a pheidio cynnal y dadleuon hunanol. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Ai dameg yn trafod y farchnad gyflogaeth yw'r ddameg am y gweithwyr yn y winllan, neu ddameg yn sôn am natur a pherson Duw?
2. A yw ariangarwch yn elyniaethus i'n bywyd Cristnogol, neu a yw'n iach bod yr eglwys yn hyrwyddo tegwch ym maes cyflogaeth?
3. Yn nhymor diolchgarwch, am beth fydd y tlawd a'r sawl sydd heb waith yn diolch amdano?
4. Pan gyhoeddir Datganiad yr Hydref ar 22 Tachwedd 2023, ai da, ai drwg yw clywed y wasg yn holi sut bydd y drefn newydd yn effeithio ar yr unigolyn, neu a fyddai'n well trafod pa bolisïau economaidd fyddai'n llesol i'r cymdogaethau i gyd?
5. A yw eglwys gyfoethog yn ariannol yn eglwys dlawd yn ysbrydol?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 19 Tachwedd**

Mae Lisa Gwilym yn cael cwmni Gareth Glyn a Trystan Lewis i ddathlu 60 mlwyddiant Cymanfa Fawr 1963, pan ddaeth 5,000 o leisiau ynghyd yn Neuadd Albert, Llundain, i greu record hir chwedlonol – *A Nation Sings*. Daw'r emynau o Gapel Rehoboth, Prestatyn.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 19 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Emlyn Davies

**Sul, 19 Tachwedd, am 12yp**

Oedfa dan arweiniad Glenys Jones, Pwllheli

# O Gefn Gwlad

## I ble'r aeth y goleuni?

Cwestiwn da i'w ofyn yn Nhachwedd, mis tywyllaf y flwyddyn medden nhw, a'r tywyllwch roes ei enw iddo, sef 'tawch wedd', a mis felly ydi o yn amlach na pheidio. Mis bod yn ddigalon, mis codi'r felan. Wn i ddim ydi'r ystadegau yn cefnogi fy marn, ond synnwn i ddim mai hwn yw'r mis lle y ceir mwyaf o hunanladdiadau gan fod tywyllwch ym myd natur yn effeithio arnom i gyd i ryw raddau, a golau'r haul yn effeithio arnom fel arall.

Ond nid am Dachwedd yr oeddwn yn bwriadu sôn nac am olau'r haul chwaith, ond am dywyllwch a goleuni o fathau eraill. Un o feirdd cymharol ifanc Lloegr yw Kae Tempest, fu unwaith yn Kate, a rywbryd yn 2010 cynhaliodd sesiwn darllen ei barddoniaeth yn Latvia. Roedd ar y pryd mewn cyflwr eitha gwael ac yn yfed llawer gormod. Wedi'r darlleniad, wrth grwydro o gwmpas y dyrfa daeth gwraig dal i'w chyfarfod, ac fe ddywedodd wrthi fod ei barddoniaeth yn iawn ond ei bod yn yfed llawer gormod ar y llwyfan. Ac meddai wrthi, mewn brawddeg gofiadwy: 'Os gwnei di ddal i droi dy gefn ar y golau, yn y diwedd mi wnaiff y golau roi'r gorau i drio chwilio amdanat.'* Maddeuwch y cyfieithiad, ond fe nodais y gwreiddiol ar y diwedd.

Y mae gorddefnydd o alcohol a'r defnydd o gyffuriau yn rhemp mewn rhannau o'n gwlad ac ymhlith llawer o'n pobol. Perygl amlwg yr arferion hyn yw mynd yn gaeth i'r cyffur, beth bynnag y bo. Dwi ddim yn gymwys i adrodd am y broses o arfer efo'r cyffuriau hyn nes mynd yn gaeth iddyn nhw, ond y maen nhw yn feistri caled. Ai chwilio am oleuni yw dechrau'r daith hon tua'r gwaelod? Chwilio am gysur ac anghofrwydd mewn byd sy'n gallu bod yn bopeth ond cysurus?

Bu bri mawr ar gyffuriau unwaith a phobl amlwg iawn yn eu harddel a'u defnyddio, a chaneuon megis 'Lucy in the sky with diamonds', fe honnir, yn cael eu cyfansoddi i gyflwyno gwedd ramantus ddelfrydol iddynt, gyda llythrennau cynta Lucy, Sky a Diamonds yn rhoi ichi LSD. A bu'r llaweroedd yn eu cymryd er mwyn chwilio am y goleuni, y teimlad braf mewn byd oedd yn bopeth ond braf iddyn nhw falle, y cyfnodau ysgafala o ddihidrwydd. Ie, chwilio am y goleuni gan nad oes neb ohonom yn hoffi byw yn y tywyllwch.

Ond goleuni ffals yw goleuni gorddibyniaeth ar unrhyw gyffur. Goleuni sydd wir yn arwain i dywyllwch, yn gymylau trwchus dros haul unrhyw obeithion. Ac fel gyda bron bopeth mewn bywyd, y mae yna adnod sy'n ffitio'r cyflwr hwn a dyma hi o Feibl William Morgan: 'Am hynny os bydd y goleuni sydd ynot yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch!' (Mathew 6:23)

Tristwch mawr y rhai sy'n cymryd alcohol a chyffuriau er mwyn ceisio am hapusrwydd a goleuni yw eu bod mewn gwirionedd yn cerdded i'r tywyllwch, a gall fod yn dywyllwch dudew, anodd ymdrechu i ddod allan ohono i'r goleuni. A dod i sylweddoli efallai mai uffern yw'r gwirionedd a ddysgwyd yn rhy hwyr ganddynt.

Yn rhy hwyr? Oes gan Gristnogaeth ateb i'r trueiniaid hyn? Onid crefydd yr unfed awr ar ddeg ydyw, ac nad yw byth yn rhy hwyr i ganfod gobaith? I ganfod, yng ngeiriau Waldo, y gall goleuni Crist ddwyn 'r[h]yddid i bob dyn a'i myn'. Y rhai a syrthiodd wrth



Llun: unsplash.com

geisio'n ofer oleuo eu tywyllwch, a'r gweddill wrth eu cadw beunydd **yn** y goleuni.

Ac os credwn y Beibl, Crist yw'r goleuni hwn gan iddo ddweud hynny ei hun: 'Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni'r bywyd.' (Ioan 8:12) A gobaith dynolryw yw ei fod yn wahanol i'r goleuni y soniodd y wraig o Latvia amdano, ac nad yw byth yn rhoi'r gorau i chwilio amdanom.

* If you keep turning your back on the light, eventually it will stop trying to find you.

*Elfyn Pritchard*

### GWEDDI DROS YSGOLION/PRAY FOR SCHOOLS

Beth am ymuno gyda ni mewn cyfarfod gweddi dwyieithog dros ysgolion Cymru?

Cynhelir y cyfarfod ddydd Mawrth, 21 Tachwedd, 12.30–1.15 pm dros Zoom a gellir archebu lle am ddim drwy'r ddolen isod: https://www.eventbrite.co.uk/e/gweddi-dros-ysgolion-cyfarfod-gweddi-pfs-in-wales-prayer-zoom-tickets-746926395957

# Sgwrs Natalie Morgan â *Papur Priordy*



Mae Natalie Morgan yn astudio yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, i baratoi ar gyfer y weinidogaeth. Bu *Papur Priordy*'n sgwrsio â hi – a diolchwn iddynt am gael cynnwys yr erthygl yn *Cenn@d*.

**PP:** Fe gawsoch eich geni a'ch codi yn Sir Benfro. Soniwch ychydig i ddechrau, Natalie, am eich bro enedigol.

NM: Do, ces i fy ngeni yn Hwlffordd a'm magu mewn pentref bach o'r enw y Mot (New Moat yn Saesneg), rhwng Maenclochog a Llys-y-frân. Mae'n ardal hyfryd. Dw i'n cofio cerdded lan Foel Eryr yn y Preselau, gyda fy mrawd a'm chwaer, pan oedd hi'n bwrw eira a llithro o'r pen i'r gwaelod ar beth bynnag o'n ni'n gallu ffeindio yn y garej. Ymunais â Chlwb Ffermwyr Ifanc Llys-y-frân pan o'n i'n 12 oed, lle ro'n i'n cymryd rhan yn yr eisteddfodau a'r dramâu. Mae fy mam yn dod o Bosherston yn wreiddiol, felly ro'n i'n treulio llawer o amser lawr yn ne'r sir gyda Mam-gu a Thad-cu.

**PP:** Mae'n wir fod y capel wedi chwarae rhan bwysig yn eich magwraeth.

**NM:** Roedd Mam yn mynychu'r eglwys Anglicanaidd yn y Mot ac roedd fy nhad yn mynychu Capel y Bedyddwyr, Siloam, yn y Gelli, felly ces i fy magu yn y ddau enwad. Yn fy arddegau dechreuais i ganu'r organ yn yr eglwys a'r capel. Erbyn i fi fynd i'r brifysgol, ro'n i'n gwneud mwy a mwy yn y capel – yn cymryd rhan yn oedfaon y Nadolig a'r Pasg. Er bod fy rhieni yn mynychu'r capel neu'r eglwys, do'n ni ddim yn trafod ffydd adre. Felly roedd mynychu'r capel yn gyfle i fi ddysgu mwy a mynegi fy ffydd, trwy gerddoriaeth, trwy ganu a thrwy gyhoeddi'r gair.

**PP:** Ry'ch chi bellach yn byw yn Aberteifi ac yn addoli yno.

NM: Ydw. Symudais i Aberteifi 'nôl yn 2018. Dw i'n dwlu ar y dre ac mae gen i atgofion melys o ddod i'r dre ar ddydd Sadwrn pan o'n i'n ifanc. Cyn i fi symud, ro'n i'n ymwybodol o'r gymuned agos yn Aberteifi. Dechreuais i fynychu oedfaon yng Nghapel Bethania a des i'n aelod yno yn 2021. Ro'n i'n teimlo fel rhan o'r teulu o'r foment y cerddais i drwy'r drws. Rydw i wedi mwynhau cymryd rhan mewn oedfaon a chymryd oedfaon cyfan ers i fi ddechrau pregethu. Mae'r eglwys a'r gweinidog, y Parch Irfon Roberts, a'i wraig, Mair, wedi bod yn gefnogol iawn wrth i fi ystyried a phrofi'r alwad.

**PP:** Beth am eich gwaith dyddiol?

NM: Dw i wedi bod yn gweithio i Gyngor Sir Benfro ar y Rhaglen Gyflogaeth a Chymorth ers 2016. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo pobl ynghylch chwilio am swyddi, profiad gwaith a hyfforddiant, yn enwedig pobl gydag anableddau, anghenion dysgu, awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl. Rydw i hefyd yn cynorthwyo cyflogwyr i greu gweithle cefnogol a chynhwysol. Mae cymaint o bobl gydag anableddau, anghenion dysgu ac awtistiaeth sy erioed wedi ystyried gwaith, ond mae'n codi'r galon i'w helpu nhw i ymchwilio i beth sy'n bosib gyda 'bach o gymorth.

**PP:** Enilloch chi'ch gradd gyntaf mewn Addysg Grefyddol a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Beth am y cyrsiau ers hynny yng Ngholeg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd?

**NM:** Pan ddechreuais i ystyried yr alwad i'r weinidogaeth, cysylltais â phennaeth Coleg y Bedyddwyr. Dechreuais i ar gwrs Pathways, yn mynychu sesiynau un Sadwrn y mis dros ddwy flynedd. Roedd myfyrwyr o wahanol gefndiroedd yn dod at ei gilydd, ac rydw i mor ddiolchgar am y cyfle i fynychu'r coleg, ac astudio ar y cwrs Pathways. Dwy flynedd yn ôl, dim ond dysgu mwy ro'n i moyn ei wneud. Dros y ddwy flynedd yn y coleg dw i wedi ystyried, trafod a phrofi'r alwad.

**PP:** Rych chi'n pregethu o Sul i Sul. Sut ydych chi'n mwynhau'r profiad hwnnw?

NM: Dechreuais i bregethu tua dwy flynedd yn ôl. A dw i'n wir wedi mwynhau pob eiliad, pob her, pob dathliad, pob oedfa. Yn edrych 'nôl ar fy Sul cynta, dw i'n cofio cynnal oedfa yng Nghapel Jabes, Cwm Gwaun a Tabor, Dinas Cross – am nerfau! Ond dros y ddwy flynedd diwetha, dw i wedi dysgu sut i ddelio â'r nerfau, a magu hyder yn fy hun a hefyd yn y ffaith bod Duw gyda fi bob cam o'r ffordd. Rydw i'n hoff iawn o ddod i nabod pobl a dw i wedi mwynhau dod i nabod cynulleidfaoedd wrth i fi ddychwelyd i'r capeli dro ar ôl tro. Ond mae mwy i fod yn weinidog na sefyll yn y pulpud ar ddydd Sul a dw i'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gymuned.

**PP:** Byddai llawer yn dweud eich bod yn mentro i'r weinidogaeth ar gyfnod ofnadwy o heriol, ond tybed a ydych chi'n llawn gobaith serch hynny?

**NM:** Yn anffodus, dw i wedi clywed hyn sawl gwaith yn barod. Yn wir, mae'n cyfnod heriol gyda niferoedd yn y capeli yn lleihau, capeli yn cau. Mae llai o bobl yn trafod eu ffydd, llai o bobl yn troi at Iesu, at Dduw, llai o bobl yn credu. Ond, heb her, does dim unrhyw beth i anelu ato. Ydy, mae'n gyfnod heriol iawn ond, gallwn ni feddwl amdano fel cyfnod cyffrous iawn hefyd. Cyfle i ni gamu mas o'r adeilad ac i mewn i'r gymuned. Mae'n gyfle i ni ailystyried sut gallwn ni ymestyn mas at y rhai sy'n teimlo'n wan eu ffydd. Mae'n gyfle i ni ystyried sut gallwn ni dderbyn esiampl Iesu a'i ddilyn mewn oes fodern. Dyma'n cyfle i rannu'r Newyddion Da a chael effaith go iawn ar bobl.

**PP:** Ydych chi'n gweld lle i dechnoleg fodern yn eich cenadwri?

**NM:** I fi, mae technoleg fodern yn rhan hanfodol o'n cenadwri. Mae'n llwyfan i ni gysylltu â phobl sy falle'n moyn cysylltu â'r eglwys ond heb yr hyder i gerdded trwy'r drws. Gall fideos ar YouTube, ffrydio'n fyw ar Facebook, negeseuon o gyfeillgarwch ar WhatsApp agor y drws tipyn bach. Mae angen i rai glywed; mae angen i rai wneud neu wrando; mae angen i rai weld. Felly, mae'n synhwyrol i ni fod yn ymwybodol o hyn a defnyddio technoleg fodern er mwyn helpu pobl i gysylltu â Duw mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Gall lluniau ar y sgrin fawr neu gân ar YouTube helpu pobl i deimlo presenoldeb Duw. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu agor lan yr eglwys leol i'r eglwys fyd-eang. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ein helpu ni i gysylltu â'n Heglwys a'n cymuned ehangach.

**PP:** Ry'ch chi'n aelod gyda'r Bedyddwyr ac yn dod atom i ofalaeth sy'n cynnwys eglwysi Annibynnol a Phresbyteraidd. Fyddech chi'n cytuno fod gweld y coleg yn gweithredu'n drawsenwadol fel hyn yn beth da?

**NM:** Ydw. Dw i'n teimlo'n gryf bod rhaid i ni gydweithio. Mae'n dangos ein bod ni'n un eglwys trwy Iesu Grist. Dw i wedi mwynhau dod i nabod myfyrwyr o'r enwadau eraill ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gymuned drawsenwadol.

**PP:** Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau, Natalie. Ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr at eich cwmni yn ein gofalaeth. Pob dymuniad da i chi.

[Crynodeb o gyfweliad a gyhoeddwyd gyntaf yn *Papur Priordy*, rhif 371, Tachwedd 2023 https://www.priordy.org/papur/)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru